OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2003 Rhif 673 (Cy.83)

TRETH GYNGOR, CYMRU

Gorchymyn Treth Gyngor (Diystyru Gostyngiad) (Diwygio) (Cymru) 2003

Wedi'i wneud	- -	*11 Mawrth 2003*
Yn dod i rym	- -	*1 Ebrill 2003*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan baragraff 4(2) o Atodlen 1 i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992(**1**) a'r holl bwerau eraill sy'n ei alluogi yn y cyswllt hwnnw, drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn canlynol—

Enw, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Treth Gyngor (Diystyru Gostyngiad) (Diwygio) (Cymru) 2003 ac mae'n dod i rym ar 1 Ebrill 2003

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys i Gymru yn unig.

Dehongli

2. Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "y cyfnod perthnasol" ("*the relevant period*") o ran cwrs yw'r cyfnod sy'n dechrau ar y diwrnod y mae person yn dechrau ar y cwrs hwnnw ac yn dod i ben ar y diwrnod ("y diwrnod olaf") y mae'r person hwnnw yn ei gwblhau, yn rhoi'r gorau iddo, neu yn gorfod ei adael (mae'r cyfnod hwnnw yn cynnwys unrhyw gyfnod o wyliau rhwng tymhorau a chyn y diwrnod olaf);

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992(**2**);

ystyr "y Prif Orchymyn" ("*the Principal Order*") yw Gorchymyn Treth Gyngor (Anwybyddiad Gostyngiad) 1992(**2**);

(**1**) 1992 p.14. Gall Cynulliad Cenedlaethol Cymru arfer y pŵer o dan yr adran hon mewn perthynas â Chymru: *gweler* erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac Atodlen 1 iddo.

(**2**) O.S. 1992/548 fel y'i diwygiwyd gan O.S. 1994/543; O.S. 1995/619; O.S. 1996/636; O.S. 1996/971; O.S.1996/3143; O.S. 1997/656 ac O.S. 1998/291.

(**2**) O.S. 1992/548 fel y'i diwygiwyd gan O.S. 1994/543; O.S. 1995/619; O.S. 1996/636; O.S. 1996/971; O.S.1996/3143; O.S. 1997/656 ac O.S. 1998/291.